# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bendigaid William Davies

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bendigaid William Davies yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol sy'n dathlu natur amrywiol cymuned yr ysgol yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn, maent yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae datblygiad proffesiynol staff wedi arwain at welliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol, er enghraifft mewn datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae cwricwlwm difyr yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar werthoedd a chredoau cryf, yn darparu llawer o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu hyder a'u creadigrwydd. Mae'r cwricwlwm dilys a chynhwysol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael eu cynrychioli.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai y mae'r Saesneg yn newydd iddynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn datblygu rhuglder mewn darllen ac yn ysgrifennu'n aeddfed at ystod o ddibenion. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol yn cael ei datblygu'n raddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cryf ac yn defnyddio ystod o dechnoleg i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae cyflymdra da i fwyafrif y gwersi ac mae athrawon yn defnyddio holi addas i ddyfnhau ac ymestyn y dysgu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigon da i uchafu eu dysgu, ac mae gweithgareddau yn aml yn cael eu gor-gyfarwyddo gan staff, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da at ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda yn eu gwersi. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i adolygu eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth yw eu camau nesaf.

Mae llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth gref ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cyfraddau presenoldeb yn dda. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'n rheolaidd, mae absenoldeb parhaus yn parhau i fod yn broblem i leiafrif o ddisgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd cryf â rhieni ac mae'n ymgysylltu'n dda â'r gymuned leol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol yn eu dysgu

A2 Sicrhau bod gweithgareddau a thasgau ffocws yn addas o heriol ac yn galluogi pob un o'r disgyblion i wneud y cynnydd gorau y gallant

A3 Parhau i wella presenoldeb

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2025